BARNES, EDWARD, bardd a chyfieithydd llyfrau crefyddol yn ail hanner y 18fed ganrif

Enw: Edward Barnes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd a chyfieithydd llyfrau crefyddol yn ail hanner y 18fed ganrif
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: David Myrddin Lloyd

Ganwyd yn Llanelwy, a bu'n athro ysgol yno. Yn ôl Josiah Thomas Jones yn *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* trodd yn Fethodist, a bu fyw am flynyddoedd yn Sir Drefaldwyn, a chroesawai yno bregethwyr teithiol i'w dy.

Ceir dwy garol blygain o'i waith ynghyd a cherdd yn erbyn medd-dod a cherdd yn erbyn bydol chwantau yn *Cyfaill i'r Cymro*, sef casgliad William Hope, Mostyn, a argraffwyd yng Nghaer yn 1765. Yn N.L.W. MS. 843, a gopiwyd tua 1761, ceir cyfres o englynion ganddo i Dduw. Cyhoeddwyd yn 1784 ei gyfieithiad o'r *Llythyr o Gyngor difrifol...* gan De Courcy, yn 1785 y *Myfyrdodau a Sylwadau* gan Iago Herfei (sef James Hervey), ac yn 1792 ei gyfieithiad o bregeth Theophilus Priestley ar farwolaeth Selina, iarlles Huntingdon. Argraffwyd yng Nghaerlleon yn 1795 y *Patrwm dewisol rannau o ganiadau y Parchedig Rees Prichard ... ar ddull Geirlyfr Cymraeg a Saesneg gan Edward Barnes, Athraw Ysgol yn Caerwys*. Copi o hwn yw N.L.W. MS. 1477, ac arno mewn inc fe newidiwyd y dyddiad i 1797, a ' Caerwys ' i ' Lanelwy.'

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), i, 19

Llyfryddiaeth y Cymry

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732926

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu